# Atodiad 2 - Rhesymeg ar gyfer ymchwilio i'r Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw'r awdurdod lleol sydd â'r gyfran uchaf ond un o bobl sy'n darparu gofal yng Nghymru.
- Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hefyd gyfran uchel o bobl anabl a chyfran uchel o ardaloedd sydd wedi'u dosbarthu fel y mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n golygu ei fod yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'n briodol ystyried sut mae'r ddemograffeg yn dylanwadu ar y ffordd y caiff asesiadau o anghenion gofalwyr eu cynnal yn yr awdurdod lleol hwn.
- Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn dangos bod asesiadau o anghenion gofalwyr yn tueddu i gael eu cynnwys yn yr asesiadau integredig yn hytrach na'u bod yn asesiadau gofalwyr annibynnol.
- Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn dangos nad yw'r gwasanaethau a ddarperir, mewn cryn dipyn o achosion, yn adlewyrchu'r canlyniadau/anghenion a aseswyd.
- Roedd tystiolaeth a gafwyd gan ofalwyr mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn dangos diffyg ymddiriedaeth yn yr awdurdod lleol ac ofn y byddai gwasanaethau'n cael eu dileu, ac nad oedd asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu cynnig i ofalwyr fel mater o drefn.
- Dim ond 2% o asesiadau o anghenion gofalwyr sy'n oedolion a oedd yn arwain at gynllun cymorth, ond roedd 87% o asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc yn arwain at gynllun cymorth. Mae'n briodol archwilio'r gwahaniaeth hwn.
- Yng ngoleuni'r wybodaeth uchod a'r meini prawf cyhoeddedig, cynigwyd cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel un o'r awdurdodau lleol yn yr ymchwiliad.

## Cyngor Sir Ceredigion

- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn un o'r awdurdodau lleol sydd â'r gyfran fwyaf o bobl sy'n darparu 19 awr neu lai o ofal di-dâl yr wythnos, sef 5.3% o'r boblogaeth.
- Cyfran gymharol isel o asesiadau o anghenion gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc ac sy'n arwain at gynllun cymorth, sef 11% a 15% yn y drefn honno.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithio mewn partneriaeth â Phorth Gofal, sef partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a sefydliadau trydydd sector, i gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr sy'n oedolion, ac mewn partneriaeth â Gofalwyr Ceredigion i gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc. Mae'n briodol archwilio sut mae defnyddio sefydliad trydydd sector yn gweithio'n ymarferol, o ystyried pryderon cyffredinol a godwyd gan ofalwyr am asesiadau o anghenion gofalwyr wedi'u comisiynu yn ystod yr ymgynghoriad.
- Awdurdod gwledig gan mwyaf yng ngorllewin Cymru yw Cyngor Sir Ceredigion. Mae dros hanner poblogaeth yr awdurdod yn siarad Cymraeg. Yng Nghyfrifiad 2021, roedd 45% o boblogaeth Ceredigion yn gallu siarad Cymraeg.
- Bydd archwilio sut y gall natur wledig yr ardal a'r defnydd o'r Gymraeg effeithio ar y cymorth sydd ar gael i ofalwyr yn fater y bwriadwn ei ystyried.
- Yng ngoleuni'r wybodaeth uchod a'r meini prawf cyhoeddedig, cynigwyd cynnwys Cyngor Sir Ceredigion fel un o'r awdurdodau lleol yn yr ymchwiliad.

## Cyngor Sir y Fflint

- Nodwyd mai Cyngor Sir y Fflint yw'r awdurdod lleol sydd â'r ganran uchaf o asesiadau o anghenion gofalwyr sy'n oedolion sy'n arwain at gynllun cymorth.
- Mae'n werth ystyried ymhellach sut mae hyn wedi digwydd, a oes arferion gorau i'w gweld yn yr awdurdod lleol hwn ac a ellid dysgu unrhyw wersi i'w rhannu â chyrff eraill.
- Ar y llaw arall, roedd tystiolaeth a gasglwyd gan ofalwyr a oedd yn byw yn ardal yr awdurdod lleol hwn yn dangos nad oedd y cynlluniau cymorth a oedd yn cael eu cynnig yn bodloni'r canlyniadau/anghenion a aseswyd ac mai amrywiaeth gyfyngedig o opsiynau cymorth a oedd yn cael eu cynnig.
- Hefyd, roedd tystiolaeth yn dangos nad oedd anghenion cyfathrebu gofalwyr yn cael eu cydnabod er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn asesiadau o anghenion gofalwyr yn effeithiol.
- Caiff asesiadau o anghenion gofalwyr eu comisiynu i Wasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru yng Nghyngor Sir y Fflint.  Mae'n briodol archwilio sut mae defnyddio sefydliad trydydd sector yn gweithio'n ymarferol, o ystyried pryderon cyffredinol a godwyd gan ofalwyr am asesiadau o anghenion gofalwyr wedi'u comisiynu yn ystod yr ymgynghoriad.
- Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Cyngor Sir y Fflint nad oedd o'r farn bod ganddo broblem systemig o ran camweinyddu neu fethiant gwasanaeth.  Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae wedi cytuno o'i wirfodd i setlo cwyn a wnaed i swyddfa'r Ombwdsmon ynghylch asesiadau o anghenion gofalwyr.  Nid oedd wedi darparu copi o'r asesiadau o anghenion gofalwyr, a chytunodd i wneud hynny wedyn. Cytunodd hefyd nad oedd wedi cynnig asesiadau o anghenion gofalwyr i'r achwynwyr drwy eu hawl eu hunain.
- Yng ngoleuni'r wybodaeth uchod a'r meini prawf cyhoeddedig, cynigwyd cynnwys Cyngor Sir y Fflint fel un o'r awdurdodau lleol yn yr ymchwiliad.

## Cyngor Castell-nedd Port Talbot

- Cyngor Castell-nedd Port Talbot yw'r awdurdod lleol sydd â'r gyfran uchaf o bobl sy'n darparu unrhyw ofal di-dâl. Cyngor Castell-nedd Port Talbot sydd hefyd â'r gyfran uchaf o bobl sy'n darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos, sef 4.5%, a phobl sy'n darparu rhwng 20 a 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos, sef 2.9%.
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot sydd hefyd â'r gyfran gydradd uchaf o bobl anabl ac mae ganddo gyfran uchel o ardaloedd sydd wedi'u dosbarthu fel y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot i gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr, ac mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn darparu rhai gwasanaethau cymorth, a chaiff gwasanaethau eraill nad ydynt yn cael eu cynnig gan Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot eu hanfon ymlaen at y timau gwasanaethau cymdeithasol perthnasol. Mae'n briodol archwilio sut mae defnyddio sefydliad trydydd sector yn gweithio'n ymarferol, o ystyried pryderon cyffredinol a godwyd gan ofalwyr am asesiadau o anghenion gofalwyr wedi'u comisiynu yn ystod yr ymgynghoriad.
- Cyfran gymharol isel o asesiadau o anghenion gofalwyr sy'n oedolion sy'n arwain at gynllun cymorth, sef 2%.
- Mae'n werth ymchwilio ymhellach i'r nifer mawr o ofalwyr yn yr awdurdod lleol hwn o gymharu â'r gyfran isel o asesiadau o anghenion gofalwyr sy'n oedolion sy'n arwain at gynllun cymorth.
- Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn dangos ei bod yn cymryd cryn ymdrech i drefnu asesiadau o anghenion gofalwyr, bod gofalwyr yn aml yn gwrthod cael asesiad, a bod diffyg ymwybyddiaeth ymhlith staff ynghylch yr hawl statudol i gael asesiad o anghenion gofalwr.
- Yng ngoleuni'r wybodaeth uchod a'r meini prawf cyhoeddedig, cynigwyd cynnwys Cyngor Castell-nedd Port Talbot fel un o'r awdurdodau lleol yn yr ymchwiliad.